# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**7 Hydref 2025**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** Cyng I Roberts, P Roberts, H N Evans, R G Parry, G Parry, S Jones, G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:** Cyng H Owens, C Thomas, D Fowlie (Cynghorydd Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i’r cyfarfod. Cydymdeimlodd hefyd ar ran yr aelodau â'r Cynghorydd Sioned Jones ar ei phrofedigaeth. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng I Roberts eitem 4.5 |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 09.09.25 fel cofnodion cywir – Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng H N Evans yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O’R COFNODION** |
| **4.1** | **Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn aros i glywed gan y Pennaeth ynglŷn â dyfynbris arall. Fodd bynnag, cynigiodd y Cynghorydd S Jones anfon rhif cyswllt ymlaen at y Clerc. |
| **4.2** | **Terfyn cyflymder Engedi** – Mae y Cyngor Sir yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi cael gwybod bod damwain bron â digwydd wrth y groesffordd. Mae gyrwyr bysiau bellach wedi cael gwybod fod yn rhaid iddynt stopio i gasglu plant ysgol wrth y lloches bysiau ac nid wrth y groesffordd. |
| **4.3** | **Dosbarthwr bagiau cwn** - Mae dosbarthwr newydd bellach wedi'i osod wrth fynedfa maes parcio'r ysgol. |
| **4.4** | **Wal y Fynwent** - Mae'r Clerc yn ceisio cael dyfynbris ar gyfer atgyweirio'r wal. |
| **4.5** | **Cais am fainc** - Yn dilyn cais diweddar i osod mainc yn y fynwent, mae'r Clerc wedi gofyn am ffotograffau o'r fainc arfaethedig. Nid oes unrhyw ymateb wedi dod i law. Yn y cyfamser, gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i bolisïau cynghorau cymuned eraill ynghylch gosod meinciau mewn mynwentydd. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 11.11.25 |

| | |
|---|---|
| **4.6** | **Bin baw cwn Lon Ty Hen** – Mae hwn bellach yn cael ei wagio bob pythefnos. |
| **4.7** | **Atgyweiriadau swings** - Dywedodd y Clerc fod Playquest wedi cytuno i atgyweirio'r siglenni am £600 + TAW. Cytunwyd i fwrw ymlaen. |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Atgoffodd y Cadeirydd bawb y bydd y Gwasanaeth Coffa yn digwydd ar 9 Tachwedd. |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Gwasanaethau Democrataidd** |
| **6.1** | Bydd cyfarfod nesaf fforwm Cyngor Tref a Chymuned ar 20.10.25. |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | **Playquest** – gweler 4.7 |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| | Dim |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | Humphreys Waste (Anf 32938) £24.00 (Anf 32677) £24.00 |
| **9.2** | Derbyniodd yr aelodau'r gyllideb a baratowyd gan y Clerc ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. |
| **9.3** | Cynigiodd y Cynghorydd Sioned Jones wneud y gwiriad cyllid chwarterol (i 30.09.25). Bydd y Clerc yn anfon y dogfennau ati pan fydd yn dychwelyd o'i wyliau. |
| | |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 11.11.25 |